

Y TYYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 46 Tachwedd 14, 2024 50c.

Cyfundeb Maldwyn

Diolch o galon i'r Parchedig Jeff Williams, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, am ddod i Ebeneser, Llanfair Caereinion ar nos Iau 26 Medi i roi anerchiad gwych a theimladwy fel rhan o gyfarfod y cwrdd chwarter. Roedd yn fraith cael bod yno yn gwrandao ar ei neges gyfoes a phwrpasol. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn waith swyddogion Cyfundeb Maldwyn yn trefnu y cyfarfod hwn ac am eu gwaith cyson trwy'r flwyddyn.

A mawr ddiolch i aelodau Ebeneser am y wledd a gafwyd ar ddiwedd y cwrdd. Ac am wledd oedd hi!

Euron Hughes



Madagascar

Yn y lluniau gwelir y Parchg Rolland Rakotoarivony a fu ar ymweliad â Chymru yn ystod yr Hydref ar ôl iddo fod mewn cynhadledd gyda CWM yn Llundain. Yno bu'n cymryd rhan mewn gweithdai ar ysbrydolrwydd rhyng-ffydd.

Mae'r Parchg Rolland yn llywydd y pwyllgor rhyng-ffydd yn FJKM (Eglwys Iesu Grist ym Madagascar). Roedd yn hynod falch o gael dod ar ymweliad â Neuadd-lwyd, Ceredigion i weld y fan o ble daeth y cenhadon cyntaf i F Madagascar dros ddau can mlynedd yn ôl – mae'r cysylltiad â Chymru'n para i fod yn un pwysig i'r wlad o hyd.

O Academi'r Neuadd-lwyd yr aeth cenhadon cyntaf yr London Missionary Society i F Madagascar. Yn y fynwent y mae bedd y cenhadwr David Griffiths a gynorthwyodd i gyfieithu'r Beibl i'r iaith frodorol a'i briod Mary a chofeb i'r Parchedigion David Jones – a sefydlodd orgraff yr iaith Falagaseg – a Thomas a Mary Bevan, y buont farw ym Madagascar.



Cymdeithas y Beibl

Daeth dau lyfryn yn ddiweddar i law gan Gymdeithas y Beibl sef *Word in Action* a *Prayer in Action*. Yn *Word in Action* fe geir cyfarchiad gan y prif weithredwr Paul Williams yn cyflwyno cynnwys y llyfryn gan bwysleisio pwysigrwydd y gwaith a wneir ganddynt. Mae'n bwysig i ninnau fel Cristnogion yng Nghymru gofio am waith y gymdeithas hon ar fendithion a'r manteision a



dderbynniasom dros y degawdau o gael y Beibl yn ein hiaith. Bendithion y dymunwn i genhedloedd eraill eu cael fel eu bod yn cael cyfle i ddarllen gair Duw a

chredu yn Iesu. Dywed Paul Williams, 'Y Beibl yw'r llyfr mwyaf poblogaidd yn fyd-eang ac y mae'r gofyn amdano ar gynydd. Yn aml y mae pobl yn cael eu denu at y Beibl mewn cyfnodau o argyfwng. Gwelwn hyn nawr yn hanes ffoaduriaid o Iran sy'n dod i wledydd Prydain. Gall y profiad o dderbyn Beibl gan eglwys fod yn un arbennig i ffoaduriaid yn enwedig os deuant o wledydd lle mae'r Beibl yn brin ac anodd eu cael.'

Yr Aifft

Ceir hefyd erthygl drawiadol o dan y teitl 'Flowers in the desert', sy'n adrodd hynt a

helynt Cristnogaeth yn yr Aifft. Lleiafrif yw Cristnogion yn yr Aifft er fe amcangyfrifir bod oddeutu 15 miliwn o Gristnogion yno mewn poblogaeth o 111 miliwn. Mae llawer o'r Cristnogion hyn yn llawn cariad tuag at yr Iesu a chyda syched mawr am yr ysgrythur. Yn 2025 y mae Cymdeithas y Beibl yn bwriadu dosbarthu 150,000 o Feiblau a Thestamentau Newydd rhad yno fel eu bod yn fforddiadwy i arweinyddion eglwysig ac y gallant wedyn eu dosbarthu am ddim. Yn 2023 dosbarthwyd 115,000 o Feiblau yno ond mae'r angen am ragor yn fawr iawn. Os gallwch, beth am gyfrannu at Gymdeithas y Beibl er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu gwaith? Gellir gwneud hynny ar lein ar eu gwefan: biblesociety.org.uk

HYSBYSEB

SWYDD

SWYDDOG ELUSEN AC EIDDO

Chwilio am her? Awydd newid gyrfa?

- Oes gennych y weledigaeth i helpu a chyfarwyddo eglwysi drwy gyfnod heriol a chyfnod newid?
- Oes gennych yr ymroddiad i sicrhau bod gan eglwysi sail gadarn i'w bywyd fel elusen?
- Swydd Rhan-amser - 22.5 awr yr wythnos
Cyflog £44,000 - £47,000 pro rata

MANYLION:
annibynwyr.cymru

NEU FFOINIWCW
01792 795888

Dyddiad Cau: 28 Tachwedd 2024

Un arall o ddirgelion bywyd!

Dirgelwch i mi ond, yn amlwg, nid i dros 70 miliwn o boblogaeth yr Unol Daleithiau, yw sut yr etholwyd Donald Trump yn Arlywydd unwaith eto.

Nid yn unig yr enillodd yr etholiad; yr oedd ei fuddugoliaeth yn un ysgubol, a'r ymdrech fawr yn awr i lawer yw ceisio deall sut y digwyddodd hyn, yn enwedig o gofio ei hanes.

Dyma'r un y bu iddo wrthod canlyniad etholiad 2020. Yn dilyn hynny, fe'i cyhuddwyd o fod, yn honedig, yn gyfrifol am yr ymosodiad ar Senedd-dy'r Unol Daleithiau yn Ionawr '21. Ef, yn awr, fydd yr Arlywydd cyntaf i gymryd at ei swydd ac yntau wedi ei gollfarnu am y drosedd o lurgunio cofnodion busnes. At hynny, trwy gydol ei ymgyrch, bu'n defnyddio iaith ymfflamychol i fflangellu

ei wrthwynebwyd, a bu'n bygwth dial ar ei elynion gwleidyddol pe deuai'r cyfle iddo wneud hynny.


Er hyn ni gyd, pleidleisiodd y miliynau iddo, gan gynnwys y Cristnogion adain dde oedd yn ei gefnogi mor frwd ac mor gyhoeddus. Ac mae hynny'n rhan fawr o'r dirgelwch i mi; sut ar wyneb daear yr oeddent hwy, o bawb, yn gallu pleidleisio dros y fath un?

Rhaid i mi gyfaddef fod rhannau sylweddol o ddiwylliant Cristnogol America yn peri penbleth nid bychan i mi. Ni allaf ddeall sut y maent yn cysoni rhai o'u daliadau â'r hyn a welir yn y Beibl.

Onid dyma'r sialens i bob un ohonom sy'n galw ein hunain yn Gristnogion; ynghanol cymhlethod bywyd, trwy ddarllen y Beibl ac ymroi i weddi, dod o hyd i'r llwybr y credwn ni sydd agosaf at ewyllys Duw, at feddylfryd Iesu Grist, ac at egwyddorion clir yr Efengyl sydd â chymaint o bwyslais ar ras a chariad a chymod?

Ac i mi, dyma un o ddirgelion mawr bywyd y dyddiau hyn, ei bod yn ymddangos nad yw pawb sy'n darllen y Beibl yn gweld hyd yn oed cymaint â hynny.

Geraint Tudur



Dydd Gweddi'r Byd
Is-bwyllor Cymraeg (Rhynggenwadol)

Cynhelir
Cynhadledd
yng Nghapel Y Rhos
Bae Colwyn

Dydd Mercher 20 Tachwedd
am 11.00
i baratoi ar gyfer
Dydd Gweddi 2025

Cyswllt: Mrs Miriam Lewis,
Hen Golwyn

Etholiad Arlywydd yr Unol Daleithiau

Dros yr haf bŵm yn treulio dau fis Sabothol 'nôl yng Nghymru. Dyma'r tro cyntaf i mi gael cymaint o amser 'nôl yn yr henwlad ers imi adael i fyw yn America 'nôl yn 2004, ac roedd yn gyfle i ymweld â nifer o ffrindiau a theulu. Roedd e'n amser hefyd i ddilyn y newyddion, gan gynnwys yr etholiad cenedlaethol ym Mhrydain ddechrau'r haf. A dyna lle ces i dipyn o sioc. O'i gymharu â'r etholiad oedd yn digwydd adre yn yr Unol Daleithiau, roedd mor *civilized*. Cyn gynted â'i bod hi'n bosib gweld yr enillydd, wel dyna ni. I fwrdd â'r prif weinidog i'r palas i ddweud 'So long' wrth y brenin. Ac mewn llai nag awr, mae'r boi newydd yn troi i fyny i ddweud, 'Helô, a dyma fi!' Dim ffws, dim grwgnach dros beiriannau cyfrif pleidleisiau, dim mynd i gyfraith a dim 6 Ionawr 2021. Dyna beth yw gwareiddiad! Jyst cwpuwl bach o wythnosau o bropaganda a 'nôl â ni i'r busnes o reoli'r wlad.

Nid felly mae hi o ble rwy i'n dod. Ar y foment rwy'n teimlo fy mod wedi byw mewn etholiad ers blynyddau maith, naill ai'n cwmpo ma's am yr un diwethaf neu'n paratoi at yr un nesaf. A dweud y gwir, rwy wedi blino'n lân! Rwy wrth fy modd yn dadlau am ddiwinyddiaeth a gwleidyddiaeth: mae'n ffordd o ddysgu a hogi'r meddwl ond mae'r blynyddau diwethaf yma rywsut wedi bod yn wahanol. Maen nhw wedi bod yn wahanol i filoedd, yn cynnwys pobl o ffydd a chred. Ac mae'n cynnwys canran uchel iawn o'r rhai sydd yn galw eu hunain yn Efengylaidd – ac rwyf fi'n un sy'n dal i weld fy hun yn y garfan honno. Yn y blynyddoedd diwethaf mae 'na densiynau amlwg wedi codi o fewn eglwysi o'r fath ym mhobman yn yr Unol Daleithiau – nifer fawr ohonynt yn ymwneud â

chefnogaeth neu wrthwynebiad i Donald Trump, sydd wedi disgrifio'i hun fel amddiffynnydd Cristnogion America. Efalla mai gor-ddweud yw honni bod dros 80 y cant o Efengylwyr America yn pleidleisio iddo, ond eto, mae'n glir fod rhan enfawr ohonynt yn ei gefnogi. Mae hynny'n ormod i lawer, sy'n teimlo bod ei foesege a'i ymddygiad yn hollol groes i foesege y Beibl, sydd i fod yn ganolog i Efengylwyr a llawer iawn o Gristnogion eraill hefyd.

Yng nghanol y tensiynau yma mae llawer wedi penderfynu gadael y byd Efengylaidd ac eraill wedi cael eu gwthio allan am feiddio siarad gair yn erbyn Trump. I'r rhai sydd isie gwybod mwy am hyn, mae'n werth darllen llyfr newydd Tim Alberta, *'The Kingdom, the Power and the Glory: American Evangelism in an age of extremism'* (2023). Felly, beth sydd wedi digwydd i blant ysbrydol Billy Graham a gondeiniodd Clinton am ei berthynas â Monica Lewinsky yn y Tŷ Gwyn, ond sy'n awr yn fodlon anwybyddu a maddau pob rhyw sgandal o eiddo Trump? Beth sydd wedi newid?

Mae 'na lawer o atebion, rwy'n siŵr, i'r fath gwestiwn, ond un sy'n sefyll allan i mi yw'r duedd i gymysgu'r weledigaeth wleidyddol a'r weledigaeth Gristnogol. Ar adegau fe all y ddwy gydreddeg, wrth gwrs, ond mae'r temtasiwn o gael y grym er mwyn cael eich ffordd yn un sy'n anodd ei osgoi. Mae'n hawdd cyfaddawdu, 'dros dro', efalla, er mwyn cael rhywbeth gwell yn y dyfodol. Ac er bod gennym i gyd le i gyfaddawdu, yn enwedig wrth geisio cydweithio mewn unrhyw lywodraeth, eto i mi ac eraill, mae 'na gyfaddawdu sy'n mynd yn rhy bell. Rwy'n dal i feddwl,



er enghraifft, fod cymeriad yn hollbwysig i unrhyw arweinydd, Cristion neu beidio, ac yn enwedig mewn swydd mor bwysig ag Arlywydd yr Unol Daleithiau. Mae cymeriad da neu ddrwg yn ymddangos yng ngweithredoedd y person. Meddai Iesu Grist ar ddiwedd y Bregeth ar y Mynydd: "Dydy ffrwyth drwg ddim yn tyfu ar goeden iach, na ffrwyth da ar goeden wael" (Mathew 7:18).

Mae nifer dros y blynyddau wedi dweud fy mod i'n rhagfarnllyd pan fyddaf yn ysgrifennu fel hyn wrth drafod gwleidyddiaeth America. Wel, mae rhywfaint o ragfarn, mae'n siŵr, ond gobeithio fy mod ddim yn annheg a bod y pwyslais hwnnw'n seiliedig ar ddysgeidiaeth y Beibl ac esiampl Iesu Grist. Dyw hyn ddim yn golygu fy mod yn amharchu pob Cristion sydd wedi ei gefnogi. A dwi byth yn trafod o'r pulpud unrhyw beth am bwy y dylai'r gynulleidfa ei gefnogi chwaith. Rhaid cyfaddef bod y mwyafrif o'r rhai dwi'n eu nabod sy'n anghytuno â mi yn Gristnogion da ac uniawn, ac yn ffrindiau hefyd – pobl sydd eisiau gweld Cristnogaeth a chyfiawnder yn tyfu eto yn y wlad ac sy'n weithgar dros y tlawd a'r anghenus, ond sydd am ryw reswm yn ddall, yn fy marn i o leiaf, i wendidau Arlywydd newydd America.

D. Kevin Adams
Uwch-weinidog
East Baptist Church
Lynn, Massachusetts

Sul Diogelu 17 Tachwedd 2024

Mae Sul Diogelu 2024 ar 17 Tachwedd i gyd-fynd ag wythnos diogelu yng Nghymru.

Os nad yw'r dyddiad hwn yn gyfleus i'ch eglwys chi, beth am ddewis dydd Sul arall, neu ddefnyddio rhan o'ch gwasanaeth arferol i godi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn eich eglwys? Ni fydd y Panel Diogelu Cydenwadol yn cynhyrchu ei adnoddau ei hun eleni, oherwydd mae yna rai adnoddau Cymraeg ac adnoddau plant (Saesneg yn unig) ar gael drwy wefan [Thirtyone:eight](https://thirtyone.eight). Ewch i: safeguarding-sunday-2024-liturgical-material-welsh.pdf.



I gofrestru a lawrlwytho'r holl adnoddau newydd ar gyfer 2024, ewch i [Gwefan Sul Diogelu](https://gwefan.sul-diogelu).

Cofiwch hefyd fod adnoddau'r Panel Cydenwadol ar gyfer 2022 a 2023 yn dal ar gael, gan gynnwys dau ffilm: <https://panel.cymru/cy/sul-diogelu>

Cofiwch hefyd fod adnoddau'r Panel Cydenwadol ar gyfer 2022 a 2023 yn dal ar gael, gan gynnwys dau ffilm.

Dyma'r Weddi Agoriadol o becyn adnoddau 2024

Dduw trugarog, ein lloches a'n nerth, amddiffynfa'r gwan, y blinderog a'r rhai dan orthrwm, deunw atat â chalonnau gostyngedig a diolchgar. Am mai dy blant di ydym, gelwi arnom i fod yn debyg i ti, i godi llais dros hawliau pawb sy'n agored i niwed. Cynnal ni yn yr ymdrech i fod yn lle diogel i bawb. Bydded inni

wrando ar y dolurus, dysgu gan esiampl Iesu a charu ein gilydd am i ti yn gyntaf ein caru ni. Amen.

Byw'r Weddi, Trystan Owain Hughes

(cyf. Gwilym Wyn Roberts), Cyhoeddiadau'r Gair, 2024, 124tt, £7.99

Yn ddiweddar, mae'r Eglwys Bresbyteraidd wedi bod yn rhannu cyfres o glipiau byr ar YouTube yn dangos beth y mae gweddi yn ei olygu i wahanol bobl, a rhai o'r cyfranwyr yn codi cwestiynau ynghylch gweddi. Gellid crynhoi'r ymatebion i eiriau megis 'perthynas', 'tawelwch', 'gwrando', ac yn y blaen.

Yn yr un modd, rhoi llais i'n cwestiynau ni i gyd a wna'r gyfrol hon, ond yn bennaf oll, cymhelliad i *weithredu* sydd yma. Nid ydym i aros ar ein gliniau; i'r gwrthwyneb, medd Trystan Owain Hughes: 'Swyddogaeth Gweddi'r Arglwydd yw, nid i'n cadw yn gynnes a chysurus yn ein gwlad, ond, yn hytrach, i'n deffro o'n trwmgwsg.' Ein herio a wna'r weddi, a'n galw i ffordd wahanol o fyw. I'r sawl sy'n hen gyfarwydd – ac yn or-gyfarwydd, efallai - â'r weddi, mae yma ddehongliad ffres ohoni sy'n cynnig ffordd i ystyried geiriau lesu o bersectif newydd.

Nid dyma gyhoeddiad cyntaf Trystan; mae eisoes wedi ennill ei le fel awdur a darlithydd, ac mae ei arddull gartrefol, yn llawn cyfeiriadau cyfoes, yn gwneud ei waith yn hawdd i'w ddilyn. Gall dynnu eglurebau o fyd nofelau, ffilmiau a dramâu, gan rychwantu gweithiau o John Bunyan i Bruce Lee! Yn sylfaen i'r cyfan y mae deallusrwydd clir, ynghyd â phrofiad ysbrydol dwfn, ac y mae'r gwaith drwyddo draw wedi ei angori yn y diwylliant cyfoes.


Wrth reswm, mae yna rai agweddau ar y diwylliant hwnnw sy'n peri gofid iddo, megis yr unigolyddiaeth sy'n nodweddu cymaint o'r meddwl cyfoes, yn grefyddol ac yn gymdeithasol. Cawn ein hatgoffa, felly, mai geiriau agoriadol y weddi yw, 'Ein Tad ...' Mae Trystan yn barod i gydnabod ei ddyled i ddiwinyddion megis John Stott a Tom Wright, dau ddiwinydd sydd ar yr ochr 'geidwadol', ond sydd, er hynny, yn credu'n gryf yn oblygiadau cymdeithasol, ymarferol dysgeidiaeth lesu.

A throi at gorff y llyfr, yr hyn a wna Trystan yw trafod y weddi fesul cymal, gan roi pennod i bob un. Galwad i goledu'r 'gwrth-ddiwylliant' sy'n cael ei osod allan yn y Bregeth ar y Mynydd ar ei hyd yw'r ail bennod, 'Sancteidier dy enw'. Nid syniad arallfydol mo hynny, meddai, ond yn hytrach rydym i sancteidio enw

Duw trwy wneud ei gymeriad yn hysbys: 'achubwr, rhyddhâwr a gwaredwr i'r gorthrymedig' yw Ef (t.39). Gan hynny, 'Mae sancteidrwydd yn alwad radical i weithredu' (t.39). Braidd yn od, felly, yw dod ar draws y frawddeg yma: 'Prif elfen ein galwad fel pobl ffydd yw arddel credo a chyffes athrawiaethol' (t.38), yn arbennig yn wyneb yr hyn a ddywedir yn nes ymlaen, wrth drafod dameg Iesu am y rhai sy'n cael eu gwahodd o'r 'tu allan' i ymuno yn y wledd yn Nheyrnas Dduw: 'Ni ofynnir iddynt fanylu am eu credoau neu arwyddo a chytuno ar gyffes athrawiaethol neu unrhyw gred hirfaith.' (t.51).

'Deled dy deyrnas' yw testun y drydedd bennod, ac yma cawn ein hatgoffa mai rôl y Cristion yw aflonyddu'r byd: ei drawsffurfio. 'Teyrnas Dduw yw'r deyrnas, ond mae'r broses o droi ei dyfodiad yn realiti yn bartneriaeth' (t.46). Yn wyneb yr holl anghyfiawnder a welwn yn y byd, mae cofio hynny'n ein rhyddhau oddi wrth y teimlad na allwn ni wneud dim, ac oddi wrth yr anobaith sy'n medru ein rhewi. Nid galwad i'w ganlyn 'hyd at ryw bwynt' yw galwad Iesu, ond galwad i uniaethu hyd yr eithaf â'r anghenus a'r rhai sy'n cael eu gormesu. Yn ei glasur o gyfrol, *Christian Counter-culture*, dadleuodd John Stott fod egwyddorion Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd yn troi ein meddylfryd ben i waered. Yn nhermau heddiw, gellid ystyried Crist fel y 'dylanwadwr' (*influencer*) pennaf!

Mae'r bennod 'Dyros i ni heddiw ein bara beunyddiol' yn arbennig o ffres a heriol. Ynddi tynnir sylw at y modd y mae ariangarwch ym myd masnach, a'r awch am elw ar draul darparu gwasanaeth da yn cyffwrdd â'n bywydau ar bob lefel. Ceir enghreifftiau hollol ddilys o hyn, ac maent yn haeddu llawer mwy o sylw na'r hyn sy'n bosibl mewn adolygiad fel hwn. Yn yr un modd, mae yna gyfoeth o ddeunydd ar gyfer grŵp trafod yn y penodau, 'Maddau i ni ein dyledion' a 'Nac arwain ni i brofedigaeth.' Er enghraifft, cawn ein hatgoffa o gymhlethdod y sefyllfa ddynol, a'r angen i fod yn raslon a maddeugar wrth geisio deall cefndir ambell droseddwr, a'r cymhellion y tu ôl i'w weithred. 'Pe bawn wedi byw eich bywyd chi, efallai buaswn wedi gwneud yr un dewisiadau â chi', meddai Jo Berry



wrth Patrick Magee, cyn-aelod o'r IRA a oedd yn gyfrifol am farwolaeth ei thad yn 1984.


Byddwn am gytuno'n llwyr â'r hyn y mae Trystan yn ei ddweud yma, ond rhaid gofyn pa mor bell ydym ni'n fodlon cerdded ar hyd llwybr yr hyn a elwir heddiw'n *no-blame culture*? Trafodwch! (Wrth fynd heibio, mae'n rhyfedd bod Trystan yn mynd mor bell â'r Aramaeg i ganfod iaith lle y mae'r gair 'maddeuant' yn golygu 'gadael i rywbeth fynd' (t.77). Dyna'i ystyr gwreiddiol yn y Gymraeg hefyd! Yn y Mabinogi, cawn yr ymadrodd yma: 'maddau'r cŵn', h.y. eu gollwng nhw'n rhydd.) Yn y bennod olaf, mae'r drafodaeth ar bŵer yn ei agweddau sefydliadol yn ddi-ddorol. Tasg yr eglwys yw herio sefydliadau sy'n camddefnyddio grym, meddai, a hynny drwy ymarfer y grym sy'n trawsnewid.

Gwaetha'r modd, mae nifer o wallau iaith ac ati na chafodd eu cywiro yn y gyfrol ac yn sicr byddai'r gwaith wedi bod ar ei ennill o gael ei olygu. Serch hynny, mae'n gyfrol wir ysbrydoledig, sy'n fwynglawdd cyfoethog ar gyfer y pregethwr a'r Cristion ymchwilgar, ac yn faes helaeth i sbarduno trafodaeth mewn grŵp. Mawr ddiolch i Trystan Owain Hughes a Gwilym Wyn Roberts am eu gwaith. Mynnwch gopi – bargaen am £7.99!

Glyn Tudwal Jones
Caerdydd

Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)



Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones

10 'Geni Obed (Ruth 4:13–22)

Cofiw'n na chafodd Ruth hyd yn hyn blant fel gwraig i Mahlon, er ei bod wedi bod yn briod efo fo am tua deng mlynedd. Oes awgrym yma nad oedd ganddi'r gallu corfforol i feichiogi ynteu cyflwr iechyd Mahlon oedd yn gyfrifol am hyn? Mae angen darllen adnod 13 yn ofalus rŵan: "a pharodd yr ARGLWYDD iddi feichiogi". Mae'r cyfeiriad at Boas yn mynd 'i mewn ati' yn gyfeiriad cyffredin yn yr Hen Destament am ŵr a gwraig yn caru'n gorfforol.

Ond nid y weithred hon yn unig sy'n dod â phlentyn i Ruth a Boas. Yn hytrach geiriau'r awdur ydy mai 'yr ARGLWYDD' sydd yn hwyluso beichiogrwydd Ruth. Dyma enghraifft arall o drugaredd yr Arglwydd mewn perthynas â Ruth a Naomi yn ogystal â Boas. Ydych chi'n cofio'r un gair arbennig sy'n treiddio drwy'r llyfr? Y gair Hebraeg *he-seḏ* (chesedd), sy'n golygu 'ffyddlondeb cariadus' ac sydd hefyd yn cael ei adnabod fel 'drugaredd'. Dyma 'drugaredd' mewn gwirionedd, gan mai canlyniad y 'ffyddlondeb cariadus' hwn ydy genedigaeth Obed bach. Roedd Ruth, gyda chymorth Duw, yn medru geni plant wedi'r cwbl.

Yn adnodau 14–15 wedyn, mae merched y ddinas yn llawenhau efo Naomi. Dyma'r merched oedd wedi ei gweld yn dod yn ôl o Foab yn drist. Bellach, mae merched Bethlehem yn medru

tystio bod Naomi unwaith yn rhagor yn gwisgo ystyr ei henw, sef 'prydferth a hardd'. Dyma'r merched oedd wedi adnabod Naomi cyn ei cholledion enbyd ac yn sŵn geiriau hyfryd gwragedd Bethlehem, mae Naomi yn cymryd y bachgen bach, "a'i ddodi yn ei chôl a'i fagu". Y merched oedd wedi bod yn gymdogion iddi sydd hefyd yn enwi'r bachgen yn Obed – enw sy'n golygu 'gwas'.

Ia, Ruth, y ferch-yng-nghyfraith oedd yn "well na saith o feibion" (adn. 15) i Naomi. Ia, Ruth a ddangosodd gariad a thrugaredd amlwg at Naomi, sydd bellach wedi geni ŵr (drwy berthynas) iddi. Ac wrth iddi ei fagu ar ei glin, gallwn ddychmygu efo hi fod yr hyn oedd yn chwerw o'r blaen (1:20) wedi troi'n hyfrydwch ei chalon.

Mae'r llyfr yn gorffen efo achau. Pam? Wel, i rai, mae achau'n medru bod yn ddiflas, ond nid i mi. Mewn achau rydym yn dysgu ac yn casglu gwybodaeth. Cawn wybod mwy am hynny'r tro nesaf.

Cwestiwn i'w drafod

Ym mha ffordd y mae Duw wedi'ch cyffwrdd yn yr adnodau hyn?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 17 Tachwedd am 7:30yh – Mawredd yr Emyn

Nia Roberts yn cyflwyno gwledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru. Cawn gyfle i fwynhau rhai o'n hoff emynau, yn cynnwys tonau poblogaidd fel 'Blaenwern' a 'Cwm Rhondda'. A bydd perfformiadau hudolus gan Ffion Emyr ac Ensemble Aberteifi.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 17 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Evan Morgan

Oedfa Radio Cymru

Sul, 17 Tachwedd, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Steffan Jones, Pontardawe

Y MUNWCH GYDA NI AM STORI A HWYL

EIN STORI NESAF FYDD Y BABAN YN Y FASGED

www.ysgolsul.com

CROESO CYNNES I BAWB

SESIWN 10 EXODUS 2:1-10




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Crist yw Cristnogaeth

Myfyrdod nodion Seion, Aberystwyth

Nid moeswersi yw Cristnogaeth. Perthynas â Pherson yw Cristnogaeth. Crist yw Cristnogaeth – ei adnabod ef, ei ennill, ac ymddiried ynddo.’ (John Stott) Wrth ddarllen llythyr Paul at Gristnogion Philipi gwelwn ei fod am adnabod yr Arglwydd Iesu Grist yn llwyrach a phrofi grym bywyd atgyfodedig Crist yn ei fywyd yntau. Tystio i ras a chariad Duw fel mae wedi ei ddatgelu mewn modd mor syfrdanol ym mywyd a gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu Grist oedd dyhead dwfn ei galon yn hyn o fyd, ac wedi ymadael â'r bywyd hwn, bod gyda Christ hyd byth, mewn corff newydd heb gyfyngiadau'r corff presennol.



Trwy gydol ei weinidogaeth yr hyn a wnâi Paul oedd dod â dynion a merched at droed y Groes. Dywedodd wrth y Corinthiaid, 'Dewisais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio.' (I Corinthiaid 2:2) Wrth droed y Groes mae Duw ei hun yn ein cyfarfod yn ei Fab. Yn y fan honno mae gras anhygoel Duw tuag at bechadur yn cael ei ddadlennu.

Brenin y Franks

Mae gan stori foel bywyd yr Arglwydd Iesu a'i farwolaeth drosom ar y Groes rym unigryw sy'n cyffwrdd â chalonnau dynion. Cawn enghraifft o hyn gan Dr James Stewart yn un o'i lyfrau: 'Daeth cenhadon Cristnogol i lys Clovis, brenin y Franks. Maent yn adrodd hanes y Groes, ac wrth iddo wrando mae llaw yr hen frenin yn gafael yng ngharn ei gleddyf, 'Pe bawn i a'r Franks wedi bod yno,' meddai, 'buasem wedi ymosod ar Galfaria a'i achub Ef o law Ei elynion.'

Cyfieithodd Vernon Lewis emyn John Bowring i'r Gymraeg:

Yn y groes rwy'n gorfoleddu,
Croes goruwch adfeilion byd;
Holl oleuni'r sanctaidd stori
Arni a grynhoir ynghyd.

(759, Caniedydd)

'Os ydych chi'n dymuno deall y neges Gristnogol rhaid i chi ddechrau gyda

chlwyfau'r Crist.' (Martin Luther) Mae dynion a merched ar hyd y cenedlaethau, fel Clovis, brenin y Franks, wedi eu cyffwrdd hyd fêr eu bodolaeth gan y cariad a'r gras a barodd i'r Arglwydd Iesu fodloni cael ei wahanu oddi wrth Dduw gan ein pechod ni a chymryd y gosb am ein pechod ni ar groes unig Calfaria. Dywedodd Paul wrth y Rhufeiniaid mai nod bywyd i'r Cristion yw bod yn 'unffurf ac unwedd' (8:29) â Mab Duw, efelychu ei gariad pwerus. Cawsom ein dewis i fod yn debyg iddo yn nerth yr Ysbryd Glân.

O na bawn fel Efe

'Yr wyf yn cyflymu at y nod,' (Philipiaid 3:14) meddai Paul, y nod o fod yn fwyfwy tebyg i'r Arglwydd Iesu Grist. 'Yr ydwyf yn cyrchu at y nod' (cyf. Beibl yr Esgobion). Nid oes llawer yn cyflymu at y nod o dyfu'n debyg i'r Arglwydd Iesu Grist, 'cyrchu at y nod' a wnawn yn araf iawn. Rhaid dyfalbarhau. Daw hynny â bendith i ni yn bersonol ac fe fyddwn ni'n fendith i'r byd. Angen pennaf ein cymdeithas a'n byd yw dynion

a merched sy'n efelychu daioni a chariad yr Arglwydd Iesu Grist wrth i'r Crist Byw fyw ynom. Boed i ni weddio gyda didwylledd llwyr emyn Eleazar Roberts:

O na bawn yn fwy tebyg
i Iesu Grist yn byw,
yn llwyr gysegre 'mywyd
i wasanaethu Duw:
nid er ei fwyn ei hunan
y daeth i lawr o'r ne';
ei roi ei hun yn aberth
dros eraill wnaeth efe.

O na bawn yn fwy tebyg
mewn gweddi i'r Iesu mad;
enciliai ef i'r mynydd
i alw ar ei Dad;
yng nghanol dwfn ddistawrwydd,
ymhell o sŵn y dref,
fe hoffai ddal cymundeb

O na bawn fel yr Iesu
yn llawn awyddfryd pur
i helpu plant gofidiau
ac esmwytháu eu cur;
O na bawn fel yr Iesu
yn maddau pob rhyw fai,
'roedd cariad yn ymarllwys
o'i galon e'n ddi-drai.

O na bawn i fel efe,
O na bawn i fel efe,
O na bawn i fel efe,
O na bawn i fel efe.
â'i Dad oedd yn y nef.

Andrew Lenny



Cristnogaeth 21

Cynhadledd Flynyddol 2024

Ar-lein: trwy gyfrwng Zoom.

9.30yb - 12.00yp, Dydd Sadwrn, 16 Tachwedd 2024.

Sesiwn 1: **Cofio'r Gorffennol:** arwyddocâd y cof mewn astudiaethau diweddar ar y Testament Newydd.
– Yr Athro Catrin Haf Williams.

Sesiwn 2: **Her yr Eglwys Werdd:**
– Delyth Higgins (A Rocha), Fiona Gannon (Capel y Nant)

Sesiwn 3: **Cyfarfod blynyddol yr elusen.**



Cofrestrwch drwy anfon e-bost at:

cristnogaeth21@gmail.com cyn ddydd Llun, 11 Tachwedd.
Anfonir dolen a rhaglen atoch yn ystod yr wythnos.

Cymanfa CWM Durban

Ailosod cenhadaeth (Revisioning mission)

Astudiaeth Feiblaidd: Damhegion y Deyrnas

Bu edrych ar rai o ddamhegion Iesu trwy lygaid Dr Cliff Bird yn brofiad eithriadol o ysbrydoledig a chyfoethog. Wrth ein hebrwng trwy rai o ddamhegion pennod 13 o Efengyl Mathew, sydd gyda'r lleiaf o ran eu maint ar dudalennau'r Testament Newydd, llwyddodd i dynnu'n sylw at y manylion hynny'n eu gwedd sy'n hawdd iawn eu hesgeuluso ond sydd, er hynny'n gyfrwng cyfleu gwirionedd sylweddol. Y damhegion dan sylw oedd, yr Hedyn Mwstard, y Lefain, y Trysor Cuddiedig, y Masnachwr Perl a'r Rhwyd.



Dehongliad arferol a disgwyliedig

Daethpwyd at y damhegion hyn yng ngoleuni'r dehongliadau cyffredin, cyfarwydd i ni i gyd, sy'n amlygu lle creiddiol y bach a'r bregus, y cuddiedig a'r gwan yn nheyrnas Dduw, un y mae hi'n werth mentro pob peth er mwyn ei chanfod a'i chael. Er bod Bird, fel ninnau'n mawrhau'r dehongliadau hyn â'u gwerthfawrogi, mynnodd bod llawer mwy ynghudd yn nhestun y damhegion hyn, ac mewn astudiaeth Feiblaidd hynod o afaelgar, llwyddodd i ddadlenni haen yn y damhegion na wêl pawb mohoni, heb sôn am roddi iddi unrhyw ystyriaeth.

Dadansoddi trwy ddelweddau

Yn ôl Bird, y mae arwyddocâd arbennig i eiriau Iesu sy'n rhagflaenu'r damhegion hyn, 'Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i ...' yn enwedig felly, o gofio pwy sy'n eu clywed gyntaf. Does dim amheuaeth mai

gwerinwyr tlawd ac anlythrennog fyddai trwch mawr y tyrfaoedd ddaeth at Iesu ar lan Llyn Galilea. Pobl fyddai wedi gweld, wrth wrando dameg, ddadlenni natur a nodweddion teyrnasiad Duw mewn delweddau cwbl gyfarwydd iddynt, rhai wedi eu codi o gyd-destun eu bod a'u byw beunyddiol. Tipyn o ryfeddod a syndod iddynt, mae'n siŵr!

Pa ddelweddau, felly? Haws eu gweld a'u hadnabod o'u gosod gyda'i gilydd yn y tabl isod.

Dameg	Testun – Mathew	Delwedd
Yr Hedyn Mwstard	13:31-32	Had, dyn, cae, coeden, adar
Y Lefain	13:33	Lefain, gwraig, cartref, blawd
Y Trysor Cudd	13:44	Trysor, cae, dyn
Y Perl	13:45	Perl, (môr), masnachwr
Y Rhwyd	13:47-48	Rhwyd, môr, pysgod, pysgotwyr, llestri

Cyfrinach y cyfarwydd

Prin fod angen ymdrechu'n rhy galed i weld un ffaith greiddiol yn cael ei hamlygu yn y delweddau hyn, sef bod cyfrinach bywyd o dan deyrnasiad Duw yn gorwedd yn solet yng nghyffredinedd (*ordinariness*) bywyd gwŷr a gwragedd yn bwrw ymlaen â'u bywydau a'u gorchwylion beunyddiol, fyddai'n sicrhau iddynt gynhaliath a bywoliaeth, â hynny i bob golwg mewn perthynas lân a chytgord perffaith â'r greadigaeth o'u cwmpas. Cafodd hynny ei gadarnhau ymhellach wrth i Bird ein hannog i sylwi ar liwiau'r delweddau. Glesni'r awyr, y môr a'r coedydd, cochni'r pridd a'r llestri, a brown hufennog yr had, y blawd a'r burum. Lliwiau'r ddaear bob un ac yng ngoleuni'r astudiaeth, arlliwiau'r deyrnas.

'ar y ddaear fel yn y nef'

Does dim modd osgoi, wedyn, y ffaith fod a wnelo teyrnasiad Duw â'r byd hwn ac â'r greadigaeth gyfan. Nid syndod hynny, chwaith, â chofio pwy piau'r damhegion, oherwydd oni welwn blannu'r deyrnas yn, a thrwy Iesu o Nasareth, Galilea, iddi wreiddio wedyn a dwyn ffrwyth mewn cyd-destun cwbl ddaearol. Diddorol nodi i Bird dynnu sylw at y ffaith mai codi'n



CWM ASSEMBLY 2024

DURBAN, SOUTH AFRICA, 12-19 JUNE 2024

dawel ac anweledig, yn hytrach na disgyn oddi uchod, a wna'r deyrnas yn y damhegion hyn, â hynny trwy lafur a gorchwyl pobl adnabyddus i Iesu.

Cawn yma gipolwg cytbwys ar natur y deyrnas, a ddaeth, ac a ddaw'n agos atom yn nyfodiad Iesu heb unrhyw ymyrraeth o'n hochor ni, ond sydd ar yr un pryd, yn gofyn am ein hymateb ufudd ninnau iddi, i'w gwisgo yn ei dillad gwaith. Ffaith gaiff ei chadarnhau yn emyn cyfarwydd T. Elfyn Jones, 'O doed dy deyrnas drwy ein gwaith a'n gweddi beunydd ar y daith.'

Un peth sy'n sicr, cafodd Iesu hyfrydwch a mwyniant anghyffredin ym mywyd y byd o'i gwmpas, a bu fyw a marw mewn ufudd-dod llwyr i deyrnasiad Duw, â hynny er mwyn i'r greadigaeth gyfan weld y llawnder bywyd a fwrriadodd Duw ar ei chyfer. Yng ngoleuni hyn ymddengys mai rhan greiddiol o'n hiachawdwriaeth ni fel pobl fydd cael ein rhyddhau yn Iesu i dyfu'n oedolion aeddfed 'yn adlewyrchu beth welwn ni yn y Meseia ei hun.' (Effeisiaid 4) Gelwir anrom i wrando Iesu a'i ddilyn.

Dyfrig Rees

(Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r *Tyst*)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

CYFIEITHU CRISTNOGOL

Cwynir weithiau am brinder llenyddiaeth Gymraeg wreiddiol. Arferir darllen cyfieithiadau o'r Saseneg. Ond beth am gyfieithu deunyddiau Cymraeg i'r Saesneg neu hyd yn oed i ieithoedd eraill? Gyda chymorth technoleg gwybodaeth gellir cyfieithu deunyddiau Cristnogol Cymraeg i sawl iaith arall. Rhydd hyn gyfleodd mawr i Gristnogion Cymraeg ddsbarthu eu defnyddiau ar draws y ddaear. Trwy hyn cynorthwywn Gristnogion ledled y byd. O'm profiad i, calonogol yw cyfieithu deunyddiau Cristnogol Cymraeg i ieithoedd eraill trwy gymorth technoleg gwybodaeth. Buaswn byth yn gallu gwneud hynny heb gymorth y dechnoleg honno. Mor gynorthwyol yw'r fath dechnoleg mewn byd o ieithoedd lluosog.

**Ddoe a heddiw**

Erstalwm byddai cenhadon yn treulio blynyddoedd i gyfieithu'r Beibl i ieithoedd brodorol. Dyna oedd hanes William Carey yn yr India. Felly hefyd oedd yn hanes cenhadon Cymreig fel John Davies yn Tahiti a David Griffiths a David Jones ym Madagascar. Heddiw gellir cyfieithu deunyddiau Cristnogol Cymraeg i ieithoedd eraill yn hwylus iawn. Nid perffaith mo'r dechnoleg beth bynnag, ond mae wedi gwella'n sylweddol iawn. Efallai un diwrnod ceir cyfieithiadau perffaith o fewn chwinciad. Cyfieithodd William Morgan y Beibl i'r Gymraeg o'r Hebraeg a'r Groeg gwreiddiol. Heddiw gellir cyfieithu'r Beibl Cymraeg yn ôl i'r ieithoedd hynny. Ac nid yn unig y Beibl oherwydd gellir cyfieithu deunyddiau Cristnogol Cymraeg eraill i gynorthwyo Gristnogion Hebraeg a Groeg eu hiaith.

Amleithrwydd

Ymhlith y deunyddiau a alluogodd fi i gyfieithu mae dogfennau ar 'Ffeithiau'r Ffydd a

Hanes yr Eglwys'. Maent wedi eu cyfieithu i Sbaeneg, Arabeg, Swahili, Urdu a Mandarin ymhlith ieithoedd eraill. Ymysg y derbynwyr mae eglwys ac enwadau, asiantaethau cenhadol a chymdeithasau'r Beibl. Y bwriad yw bod o gymorth iddynt yn eu gwaith hollbwysig.

Deuir o hyd i wefannau cyrff Cristnogol trwy chwilio'r rhyngwrwyd amdanynt. Gellir cael hyd i sawl cyfeiriad amrywiol ar wefannau cynhwysfawr fel y Baptist World Alliance, United Bible Societies a'r World Evangelical Alliance. Mae hynny'n hwyluso tipyn ar y gwaith. Mae'r ymateb i'r cyfieithiadau hyn wedi bod yn galonogol iawn. Dywedodd un cenhadwr ym Mheriw sy'n dysgu hanes yr eglwys yno iddo werthfawrogi'r cyfieithiad Sbaeneg o'r ddogfen honno ar y pwnc. Dywedodd cynrychiolydd ar ran Open Doors y buasai'n hala'r dogfennau Arabeg at y timoedd perthnasol. A gofynnodd asiantaeth Gristnogol ym Mhacistan am ganiatâd i osod y deunyddiau Urdu ar ei gwefan.

Cyfarpar

Meddalwedd Microsoft Word a ddefnyddiaf. Gellir cyfieithu dogfennau o fewn y rhaglen yn ddigon rhwydd. A cheir dros 100 o ieithoedd i ddewis ohonynt. O fewn dogfen Word ewch at 'Review' ac yna 'Translate'. Dewiswch naill ai 'Translate Selection' neu 'Translate Document'. Agorith hyn Translator i chi.


Dywedir bod tua 7,000 o ieithoedd yn y byd ac felly dim ond crafu'r wyneb a wneir trwy gyfieithu ychydig o ddeunyddiau Cristnogol. Rhydd y gwaith gyfle beth bynnag i ehangu gorwelion dyn. Beth am roi cynnig arni gan gynorthwyo Gristnogion dramor ac yn arbennig y rheiny sy'n siarad ieithoedd lleiafrifol?

Mae'r utgorn mawr yn seinio nawr i ni ollyngdod llawn drwy'r Iawn ar Galfari:
mawl ymhob iaith drwy'r ddaear faith a fydd
am angau'r groes a'r gwaed a'n rhoes yn rhydd.

Pedr Fardd.

Peter Davies

Ioan 1:1-5



Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair.Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.